**Cofnodion Cyfarfod CCG Chwefror 25.2.21**

**Am 7.30yh Ar-lein**

**19:188: Presennol:** Siôn Ifans (Cadeirydd), Geraint Wigley, William Owen, Gwenfair Davies, Gareth Jones, Aeron Pughe, Dafydd Evans, Gwen Lloyd, Huw Williams, Aled Griffiths, Gareth Owen, Sandra Evans (Clerc)

**19:189: Ymddiheuriadau:** Deryck Lewis, Elwyn Vaughan, Iwan Jones, Paul Hughes

**19:190: Datganiadau o ddiddordeb:** Gwen Lloyd - cynllunio

**19:191: Cyflwyno a Derbyn Cofnodion Ionawr**

Cynigiodd Geraint Wigley fod y cofnodion yn gywir. Fe'i heiliwyd gan William Owen.

**19:192: Materion yn codi o'r Cofnodion**

**19:192:1: Gwefan y Cyngor** (19:17:1:**)** Cafwyd manylion gan Gloversure a HJ Web Designs. Ceisir gwybodaeth bellach.

**19:192:2: Peipen dŵr yn Llanwrin**. (19:187:2:**)** Cafwyd cyfarfod â chynrychiolwyr y Bwrdd Dŵr, Y Cynghorydd William Owen a phreswylwyr lleol perthnasol ac erbyn hyn mae ffens dros dro wedi cael ei godi gyda'r bwriad i godi ffens barhaol yn fuan. Rhoddwyd clawr yn ôl ar ben draen oedd yn beryglus i 'r cyhoedd hefyd.

**19:192:3**: **Pumphouse Cwmlline** (19:187:3**)** – Tynnwyd rhwystr o'r beipen ddŵr ac i bob diben mae'r sefyllfa wedi gwella am y tro. Mynegwyd pryderon difrifol bob y broblem hon yn parhau ers blynyddoedd ac ofnir mai datrysiad dros dro yw hwn. Penderfynwyd cysylltu â Dŵr Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru aelodau'r Senedd ac NFU Cymru, am y dŵr budr o gwmpas y pumphouse yn llifo i'r afon gerllaw. Nodwyd bod amaethwyr yn cael eu cosbi'n llym gan fesurau atal llygredd eto dyma achos parhau o beryglu iechyd y cyhoedd gan gofio bod y llygredd yn effeithio ar erddi preswylwyr, llwybr cyhoeddus a'r afon gerllaw. Cynigiwyd hyn gan Gareth Owen ac fe'i heiliwyd gan Huw Williams.

**19:192:4: Dŵr ar ffyrdd** ger Cwmberllan, Tŷ nant, Darowen, Comins, Abercegir, Comins, Gwernbere a Llanwrin. (19:187:4) Canmolwyd y gwaith a gyflwynwyd a phenderfynwyd ysgrifennu i Gyngor Sir Powys i ddiolch.

**19:192:5: Ciosg Comins**. (19:187:5) Nodwyd bod BT wedi rhoi'r bocs ffon i CHT yn 2018 ar gyfer diffibriliwr. Cafwyd rhestr prisiau gan CHT. Cysylltwyd hefyd â'r elusen Calon Heart gan eu bod wedi darparu diffibrilwyr i Dalywern, Melinbyrhedyn ac Abercegir. Penderfynwyd cael amcan bris gan Galon Cymru a chwilio am ffynhonellau ariannu posib. Nodwyd nad oedd rhaid gosod y diffibriliwr mewn bocs ffôn.

**19:192:6; Ffens eglwys Darowen**. (19:187:6) Bydd Aeron Pughe yn gofalu am hwn.

**19:192:7: Ciosg Cemaes.** (19:187:7) Bydd Siôn Ifans yn dod o hyd i rywun i drwsio'r bocs ffôn.

**19:192:8: Baw cŵn yng Nghemaes**. (19:187:90) Mae cynlluniau ar y gweill gan Gyngor Sir Powys i osod biniau yn y pentref. Penderfynwyd cysylltu eto gan fod y broblem sy'n gwaethygu, gan beryglu iechyd a gwneud bywyd yn enwedig gan fod plant yn defnyddio'r ardaloedd dan sylw.

**19:192:9: Lle parcio i'r Swyddfa bost symudol yng Nghemaes** (19:187:10) Diolch i Aled Griffiths a Ms. Maggie Jones am drefnu caniatâd.

**19:192:10: Halen ychwanegol** yng Ngheinws ac ardaloedd eraill (19:187:10). Adroddwyd am hwn i Gyngor Sir Powys a bydd arolwg yn digwydd yn fuan.

19:192:11: **Ffordd beryg ar ôl torri coed rhwng Llanwrin a Ffridd Gate – tir Glanfechan**. Nodwyd and oedd y clawdd isel a godwyd gan Gyngor Sir Powys yn ddigonol o bell ffordd i atal defnyddwyr ffyrdd rhag disgyn dros y dibyn. Byddai unrhyw gamau diogelwch yn hollol ddibynnol ar adlewyrchyddion. Mynegwyd siom a phryder a bydd cysylltu eto i bwysleisio hyn. Cynigiwyd hyn gan Gareth Owen ac fe'i heiliwyd gan Huw Williams.

**19:193: Gohebiaeth:**

**19:193:1:** Derbyniwyd llythyr i ddiolch am y cyfraniad ariannol gan Fyddin yr Iachawdwriaeth.

**19:194: Cynllunio**

**19:194:1:** 21/0024/FUL Newid defnydd tir i godi pebyll cloch ar gyfer gwyliau: Glandulas Mawr , Pantperthog, Machynlleth, SY20 9AX Cymeradwywyd y cais. Cynigiwyd hyn gan ac fe'i heiliwyd gan

**19:194:2:** 21/0293/FUL - Craig Y Gronfa, Mallwyd, Machynlleth, Powys SY20 8JG Codi annedd mentrau gwledig a garej, newid mynedfa, ac ati
Cymeradwywyd y cais. Cynigiwyd hyn gan ac fe'i heiliwyd gan

**19:195: Materion Ariannol:**
**19:195:1: Bancio ar-lein**. Cafwyd addewid pellach y bydd yr ohebiaeth berthnasol yn cyrraedd o fewn wythnos.
**19:195:2: Sieciau.** Bydd Paul Hughes yn derbyn sieciau i'w harwyddo er cyfleustod nes bydd y bancio ar-lein yn weithredol.
**19:196: Adroddiadau'r Cynghorwyr**

**19:196:1: Adroddiad Addysg – Aled** Griffiths Nodwyd bod plant y Cyfnod Sylfaen wedi dychwelyd i'r ysgol gyda phlant hŷn yn dilyn ar y 15fed o Fawrth. Canmolwyd dygnwch yr athrawon, y rhieni a'r disgyblion wrth wynebu cyfnod heriol yn addysgu gartref

**19:195:2: Y Bwrdd Iechyd – Gareth Jones a Gwenfair Davies.** Ni chynhaliwyd Fforwm i'r cleifion eto. Mynegwyd siom o ran yr ymateb a gafwyd gan feddygfa Bro Ddyfi i'r anfonwyd yn mynegi anfodlonrwydd y Cyngor â'r ddarpariaeth feddygol.

**19:197: Unrhyw fater arall**

**19:197:1: Ysbwriel yn Llanwrin**.

**19:197:2: Ysbwriel yn layby Dorcorslwyn**

**19:197:3: Draen heb glawr ar y rhiw wrth adael Ffridd Gate i gyfeiriad y Ganolfan Dechnoleg Amgen yn ogystal â phroblem gyda grid draen, yn achosi perygl o ddŵr ar yr un ffordd ger Glennydd SY2 9AX**

**19:197;4: Tipio anghyfreithlon ger Pont Ifan yn cynnwys ffrâm hen wely.**

**19:197:4: Dŵr o'r afon yn cyrraedd cefn tai Min-y-ddol, Llanwrin. Cysylltir â Chyfoeth Naturiol Cymru.**

**19:197:5: Ymgynghoriad atal Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon Llywodraeth Cymru** Anfonir hwn i'r Cynghorwyr eto i'w gwblhau. Bydd y clerc hefyd yn cwblhau ar ran y Cyngor. Cynigiwyd hyn gan Aled Griffiths ac fe'i heiliwyd gan Gwenfair Davies

**19:197:6: Loris a faniau bins yn Ysgol Glantwymyn** Penderfynwyd cysylltu ag Elwyn Vaughan i fynegi pryderon ynghylch diogelwch y disgyblion gan fod y loris bins yn cyrraedd am bum munud i naw pan fydd rhieni yn gollwng y plant wrth yr ysgol yn y bore. Gofynnir iddynt wneud ychydig yn hwyrach. Deellir bod pryderon eisoes wedi cael eu mynegi gan yr Ysgol i'r Sir a dymuna Cyngor Cymuned Glantwymyn ategu'r pryderon hyn. Cynigiwyd hyn gan Aled Griffiths ac fe'i heiliwyd gan Gareth Owen

**19:197:7: Stondin beiciau yng Nghemaes:** Cafwyd cais am godi stondin i feiciau ger Tŷ Cemaes. Nodwyd nad oes hawl gan y Cyngor i roi caniatâd. Nodwyd pwysigrwydd cadw mynedfa'r cae cyfagos yn glir.

**19:197:8: Cofrestr Buddiannau Cynghorwyr** Anfonir taflen i'r Cynghorwyr i'w cwblhau. Cynigiwyd hyn gan Gwenfair Davies ac fe'i heiliwyd gan Gareth Owen.

Caewyd y cyfarfod am 8.55yh.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf am 7.30yh ar y 25ain o Fawrth**

-----------------------------------------------

**Cyfarfod Ymddiriedolaeth y Melinau Gwynt 27.2.21**

Derbyniwyd ail gais am arian gan Ennyn. Nid oes modd gwneud cyfraniad gan fod cyfraniad eisoes wedi cael ei roi yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

Caewyd y cyfarfod am 9.00yh